CYFARFOD

# Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau

Papur Cabinet CAB(21-22)71

Cyhoeddwyd gyntaf: 4 Ebrill 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 4 Ebrill 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-a-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-a-sgiliau-papur-cabinet-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Angen gwneud penderfyniad

Crynodeb

Amcan

Cyd-destun y farchnad lafur

Y cyd-destun o ran gweithredu ac ariannu

5 blaenoriaeth

Datblygiadau allweddol

Gweithredu

Monitro

Cyfathrebu a chyhoeddi

Atodiad A

# Angen gwneud penderfyniad

Gofynnir i'r Cabinet gytuno i:

- gyhoeddi a rhoi gwybod am y **Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau**, a
- sicrhau bod yr egwyddorion yn cael eu hymgorffori mewn polisi a gweithredu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-a-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-a-sgiliau-papur-cabinet-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ar draws y llywodraeth.

## Crynodeb

1. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn gosod amcanion clir i greu Cymru lle gall unigolion o bob oed gael addysg o ansawdd uchel, gyda swyddi i bawb, a lle gall busnesau ffynnu mewn economi sero net sy'n hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb.

2. Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau yn rhoi'r Rhaglen Lywodraethu wrth wraidd popeth sy'n cael ei wneud gennym – er mwyn sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl, nac yn cael ei ddal yn ôl, a hynny drwy ymrwymiad cyffredin i newid bywydau pobl er gwell.

3. Mae'r Cynllun newydd, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ar 8 Mawrth 2022, yn dangos blaenoriaethau polisi a buddsoddi clir, yn mireinio ffocws ein gwaith a gweithgarwch partneriaid ar gamau gweithredu dros dymor y Llywodraeth hon a fydd yn gadael gwaddol cadarnhaol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

4. Mae'n ailddatgan ein nodau tymor hwy i gyflymu'r cynnydd ar draws y gyfres gyntaf o Gerrig Milltir Cenedlaethol a osodwyd ym mis Rhagfyr 2021, a sbarduno ymateb ar y cyd ar draws yr holl gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Amcan y papur

5. Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau yn ceisio:

- hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth o effeithiau, tueddiadau a chynnydd y farchnad lafur hyd yma
- nodi camau gweithredu a buddsoddiadau Llywodraeth Cymru i newid polisi a gweithredu er mwyn ymateb i anghenion y farchnad lafur ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a gostyngiadau yng nghyllid yr UE.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-a-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-a-sgiliau-papur-cabinet-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- nodi meysydd lle mae angen i ni gyflymu cynnydd gyda'n gilydd, a disgwyliadau o ran cyflymu'r gweithredu ar Gerrig Milltir Cenedlaethol a rhannu'r cyfrifoldeb am ddatblygu Cymru decach.

6. Cyhoeddwyd y Cynllun Cyflogadwyedd presennol yn 2018 ac roedd nodi ein huchelgeisiau i leihau diweithdra ac anweithgarwch economaidd, ymateb i fylchau mewn sgiliau, paratoi pobl ar gyfer byd gwaith yn y dyfodol, a gwella cyfrifoldeb cyflogwyr am waith teg hefyd.

7. Mae'r targedau deng mlynedd yn rhedeg tan 2028, ac er bod targedau ac amcanion y cynllun yn dal yn berthnasol, mae'r cyd-destun o ran gweithredu, ariannu ac economaidd wedi newid yn sylweddol.

## Cyd-destun y farchnad lafur

8. Mae Cymru wedi gweld gwelliant sylweddol yn y farchnad lafur ers i'r Cynllun Cyflogadwyedd gael ei gynhyrchu yn 2018. Fe wnaethom gyrraedd ein targed o gau'r bwlch diweithdra gyda'r DU ar sawl pwynt, ac mae lefelau diweithdra yng Nghymru yn parhau'n is na'r DU. Mae cyfran y bobl 18-64 oed heb unrhyw gymwysterau wedi gostwng o 8.4% yn 2018 i 7.3% yn 2020, ac mae'r rhai â chymwysterau addysg uwch wedi cynyddu o 37.8% i 41.4%. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru, yn seiliedig ar enillion canolrifol llawn amser fesul awr, wedi gostwng o 7.3% i 5% ac mae bellach ar ei gyfradd isaf erioed. I weithwyr rhan-amser, mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi'i gau.

9. Roedd mwy o bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru yn y tri mis hyd at fis Hydref nag oedd cyn y pandemig. Roedd y gyfradd ddiweithdra, sef 3.7%, yn is na chyfradd y DU o 4.2%. Mae cynnydd mawr wedi digwydd mewn cyflogi, gan arwain at y gymhareb isaf erioed o ddiweithdra i swyddi gwag yn y DU.

10. Er bod ychydig o optimistiaeth ar hyn o bryd am y farchnad lafur a rhagolygon economaidd yng Nghymru, mae nifer o risgiau. Mae hyn oherwydd prinder o rai gweithwyr allweddol, tagfeydd yn y gadwyn gyflenwi, prisiau ynni uwch a chyfraddau chwyddiant o hyd at 7%, sy'n gyfradd na welwyd mewn 30 mlynedd. Mae'n ddigon posibl y gallai chwyddiant uwch amharu ar gynnydd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-a-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-a-sgiliau-papur-cabinet-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

drwy erydu incwm a phŵer gwario. Mae gwahaniaethau sylweddol hefyd rhwng grwpiau yn hyn o beth, yn enwedig ar gyfer pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl a rhieni sengl.

11. Un gwaddol bwysig yn sgil Covid yw'r tebygolrwydd o ragolygon cyflogaeth gwaeth i'r bobl ifanc hynny, o gefndiroedd difreintiedig yn bennaf, sydd wedi dioddef fwyaf oherwydd tarfu ar eu haddysg. Roedd gan Gymru a'r DU gyfraddau cymharol uchel o ddiweithdra ymysg pobl ifanc eisoes o'i gymharu â llawer o wledydd eraill.

12. Yn y cyfamser, mae anweithgarwch economaidd, ac achosion o waith ansawdd gwael, gwaith cyflog isel a gwaith ansicr yn parhau i beri pryder. Mae pobl anabl, pobl Ddu, Asiaidd a Ethnig Leiafrifol a'r rhai â chyflyrau iechyd yn parhau i gael eu tangynrychioli'n sylweddol yn y farchnad lafur, gydag unrhyw welliant yn arafu. Roedd yr ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol hefyd yn tynnu sylw at y rhwystrau i symud ymlaen mewn cyflogaeth i bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ac mae tystiolaeth debyg mewn perthynas â phobl anabl. Mae bylchau cyflog parhaus i bobl anabl (9.9%), menywod (5%) a gweithwyr o leiafrifoedd ethnig (1.4%) o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru.

13. Gwelwyd cynnydd mewn anweithgarwch ymhlith y rhai dros 50 oed o ganlyniad i'r pandemig oherwydd afiechyd a/neu ymddeoliad cynnar ac yn achos y rhai dros 65 oed yn benodol, mae mwy o fenywod na dynion wedi gadael y farchnad lafur. Nid yw'n glir a yw "Covid hir" yn ffactor sy'n cyfrannu at hyn, ond gallai hyn fod yn broblem gynyddol.

14. Yn y tymor hwy, yr her economaidd allweddol o hyd yw twf cynhyrchiant sy'n wan hanesyddol yng Nghymru a'r DU, ac wedi arwain at dwf araf iawn mewn cyflogau, safonau byw a'r sylfaen drethi y mae gwasanaethau cyhoeddus yn dibynnu arni. Yn ogystal, newidiadau strwythurol sy'n gysylltiedig ag (a) y newid i gysylltiadau masnachu newydd â'r UE a gwledydd eraill, (b) y newid i economi carbon isel/di-garbon, (c) cynnydd mewn gweithio o bell a gweithgarwch arall o bell, a (d) newid technolegol yn fwy cyffredinol, yn cyfuno i achosi amrywiaeth o heriau. Mae'r union oblygiadau ar gyfer sgiliau a chyflogadwyedd yn ansicr, ond bydd angen i bolisi addasu'n hyblyg i amgylchiadau sy'n newid yn gyflym a pharhau i fod yn berthnasol ar draws ystod eang o sefyllfaoedd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-a-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-a-sgiliau-papur-cabinet-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Y cyd-destun o ran gweithredu ac ariannu

15. Mae Llywodraeth y DU yn dylanwadu mwy ar y maes hwn o ddarparu gwasanaethau drwy weithredu sylweddol ar Swyddi a Sgiliau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) er mwyn ymateb i effeithiau pandemig, a'r cynlluniau a nodir yn y Papur Gwyn Codi'r Gwastad. Fodd bynnag, mae canllawiau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn nodi y dylai cynlluniau awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ystyried y sefyllfa ariannu ehangach, gan gynnwys cynlluniau cyflogaeth a sgiliau cenedlaethol neu leol eraill.

16. Bydd Llywodraeth Cymru yn colli'r cyllid sylweddol a gawsom gan Ewrop ar gyfer yr agenda hon. Mae'r system mewn perygl o fynd yn fwy tameidiog gyda bylchau'n dod i'r amlwg, yn enwedig i'r rhai sydd ymhellach o'r farchnad lafur a oedd eisoes dan anfantais cyn y pandemig.

17. Yn wyneb llai o gyllid a llai o ymreolaeth i wneud penderfyniadau, rydym yn ceisio ychwanegu gwerth yn hytrach na dyblygu cynnig cyflogaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau a chanolbwyntio ar ddull trawslywodraethol o hyrwyddo ein nodau ar gyfer Cymru Decach.

## 5 blaenoriaeth a amlinellir yn y cynllun

### 18. Hyrwyddo cyfranogiad, datblygiad a chyflogaeth ieuenctid

Cyflawni Gwarant i Bobl Ifanc - rhoi'r cynnig o waith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i bawb o dan 25 oed.

### 19. Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd

Ffocws ar wella canlyniadau'r farchnad lafur ar gyfer cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leafrifol, menywod, pobl anabl a'r rhai â sgiliau isel.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-a-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-a-sgiliau-papur-cabinet-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## 20. Hyrwyddo Gwaith Teg i bawb

Drwy annog cyflogwyr i wneud gwaith yn well, yn decach ac yn fwy diogel; hyrwyddo rôl undebau llafur; grymuso busnesau cyfrifol; gwella ansawdd cyflogaeth; cynyddu amrywiaeth y gweithlu; a gwella'r pwyslais ar atal a thrin problemau iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

## 21. Cefnogi pobl sydd â chyflwr iechyd hirdymor i weithio

Drwy atal pobl rhag mynd allan o waith drwy atal afiechyd, ymyrraeth gynnar, gweithleoedd iach a gwneud y mwyaf o rôl y gwasanaeth iechyd fel prif gyflogwr.

## 22. Codi lefelau sgiliau a chymwysterau, a symudedd y gweithlu

Drwy ehangu'r system o ddysgu hyblyg a phersonol er mwyn datblygu sgiliau addasol i gynyddu gwydnwch y gweithlu, i bawb sydd angen help i symud ymlaen, gwella eu sgiliau, dod o hyd i waith neu ailhyfforddi.

# Datblygiadau allweddol

23. Blaenoriaethu a chydgrynhoi cymorth cyflogadwyedd cenedlaethol a arweinir gan Lywodraeth Cymru i dargedu pobl ifanc, y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y farchnad lafur a'r rhai sydd i mewn ac allan o waith sydd â chyflyrau iechyd hirdymor er mwyn eu helpu i ddod o hyd i waith a chamu ymlaen mewn cyflogaeth.

24. Mynd ar drywydd concordat cryfach gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i wella ymgysylltiad cynnar a chydgynllunio yng Nghymru ar ddylunio a defnyddio ymyriadau er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth genedlaethol orau er budd pawb.

25. Hyrwyddo gwaith teg i wella'r cynnig i weithwyr, gan gynnwys ysgogi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-a-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-a-sgiliau-papur-cabinet-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gwelliant mewn cyflogau ac amodau gwaith, yn enwedig yn y sectorau hynny lle mae prinder llafur a gwaith ar gyflogau isel, anwadal ac ansicr.

26. Ehangu'r gefnogaeth i'r rhai sy'n newid gyrfa a gweithwyr hŷn drwy Adolygiadau Canol Gyrfa, a Chyfrifon Dysgu Personol i gefnogi gweithwyr i uwchsgilio neu ailsgilio i gael mynediad at ystod ehangach o gyfleoedd gwaith.

27. Rhoddwyd ffocws newydd ar y system iechyd fel rhan bwysig o'r agenda hon yn Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a'n gweledigaeth hirdymor ar gyfer dull gweithredu system gyfan mewn perthynas â iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cynllun yn cynnwys camau i gryfhau rôl graidd byrddau iechyd lleol o ran atal ac ymyrraeth gynnar drwy bresgripsiynu cymdeithasol, a mwy o gymorth cyflogadwyedd a therapi galwedigaethol i bobl sydd i mewn ac allan o waith sydd â salwch meddwl a chyflyrau iechyd hirdymor.

28. Hyrwyddo cydgyfrifoldeb ar gyfer gweithredu'r  cynllun drwy'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), dull system gyfan o ymdrin â'r Warant i Bobl Ifanc, sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, cryfhau gwerth cymdeithasol Llywodraeth Cymru a buddsoddiad Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a datblygu dull seiliedig ar waith o ymdrin â datblygu economaidd.

## Gweithredu

29. Mae'r cynllun yn dwyn ynghyd 29 o ymrwymiadau trawslywodraethol y Rhaglen Lywodraethu sy'n sail i bolisi cyflogadwyedd. Mae gwaith sylweddol eisoes ar y gweill i symud ymlaen â'r Warant i Bobl Ifanc, adolygiad o'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, Prentisiaethau, Cyfrifon Dysgu Personol ar gyfer y rhai sy'n newid gyrfa ac ehangu'r blynyddoedd cynnar a'r Cynnig Gofal Plant.

30. Mae'r camau gweithredu sy'n weddill yn amlinellu newidiadau polisi sy'n angenrheidiol i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i gydraddoldeb hiliol, dileu bwlch cyflogaeth pobl anabl, a chyflog cyfartal a Gwaith Teg. Yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-a-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-a-sgiliau-papur-cabinet-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ogystal â gweithredu i hyrwyddo amcanion y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

31. Mae llawer o'r rhaglenni sy'n sail i'r cynllun eisoes yn eu lle ac ar waith 32015772ar hyn o bryd, gyda Thwf Swyddi Cymru a Mwy i fod i gael ei lansio ym mis Ebrill 2022. Bydd hyn yn disodli Twf Swyddi Cymru a Hyfforddeiaethau. Mae gwaith ar y gweill i esblygu a gwella gwasanaeth Busnes Cymru a datblygu modelau gweithredu Cyflogadwyedd Cymunedol newydd y tu hwnt i'r cyfnod ariannu Ewropeaidd.

32. Mae'r cynllun yn nodi ein bwriad i greu'r newidiadau gweithredol angenrheidiol er mwyn sicrhau mwy o integreiddio, cydweithio a hyblygrwydd i wneud y defnydd gorau o adnoddau yn y dyfodol. Yn benodol, trefnu’r ddarpariaeth a'r adnoddau presennol i dargedu'r grwpiau y mae angen cymorth arnynt fwyaf, tra'n cynnal hyblygrwydd i ymateb i newid yn y farchnad lafur a newidiadau polisi ac ariannu yn y dyfodol.

33. I’r perwyl hwn, mae gwaith ar y gweill i wella integreiddio a llwybrau cleientiaid ar draws Cymru'n Gweithio, Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol, ReAct a'r Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd. Bydd hyn yn galluogi cydweithio ar lefel leol a rhanbarthol, a arferai fod yn anodd o fewn rheoliadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

34. Mae'r cynllun yn adlewyrchu ein dull o ddiwygio'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Mae hefyd yn cynnwys datblygiad sydd ar y gweill ar gyfer cyflwyno Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net Cymru yn hydref 2022, a fydd yn ystyried ac yn nodi newidiadau i bolisi a darpariaeth er mwyn sicrhau y gall y system sgiliau gefnogi ein taith i Sero Net.

35. Gofynnwyd am sicrwydd annibynnol yn ddiweddar ar y dull gorau o weithredu'r cynllun, a bydd hyn yn llywio datblygiadau yn y ffordd yr ydym yn rheoli gweithgarwch cyflogadwyedd yn y dyfodol er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl, yn enwedig i ymateb i'r cam nesaf o gynllunio ar gyfer colli cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-a-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-a-sgiliau-papur-cabinet-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Monitro

36. Mae'r cynllun yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth gymdeithasol i gyrraedd Cerrig Milltir Cenedlaethol Cymru. Mae'r cerrig milltir yn debygol o ychwanegu lefel ychwanegol o graffu ar ein cynnydd o ran mynd i'r afael â lefelau cyflogaeth grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, cyflog teg, codi lefelau cymwysterau a gwaith teg.

37. Mae Atodiad Technegol B yn nodi'r llwybr presennol, y meysydd i gyflymu cynnydd, a threfniadau monitro ac adrodd ar gyfer y Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau.

## Cyfathrebu a chyhoeddi

38. Bydd y cynllun yn cael ei lansio drwy Ddatganiad Llafar yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 8 Mawrth 2022.

39. Dylid cyhoeddi'r papur chwe wythnos ar ôl y cyfarfod priodol.

> Gofynnir i'r Cabinet:
>
> - gytuno i gyhoeddi a hyrwyddo'r Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau newydd, a
> - sicrhau bod yr egwyddorion yn rhan annatod o bolisi a darpariaeth trawslywodraethol.

Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi
Chwefror 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-a-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-a-sgiliau-papur-cabinet-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Atodiad A: Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau

## Materion statudol, ariannol, cyfreithiol a llywodraethu

### Gofynion statudol

Hanfod y Cynllun a'r Papur Cabinet yw cysoni polisi cyflogadwyedd â'r Rhaglen Lywodraethu a Cherrig Milltir Cenedlaethol newydd i Gymru, er mwyn hyrwyddo Nodau Llesiant Cymru.

Yn y dadansoddiad a gyflwynwyd yn y papur, a’r dadansoddiad ac asesiad effaith dilynol, mae cyfranogiad anghyfartal yn y farchnad lafur a chanlyniadau penodol Covid yn effeithio’n arbennig ar y rhai sydd o dan anfantais economaidd neu anfantais arall, yn enwedig yn ôl oedran, rhyw, anabledd neu nodwedd warchodedig arall.

### Gofynion ariannol a goblygiadau o ran llywodraethu

Nid yw’r Papur Cabinet a’r Cynllun yn ceisio unrhyw ymrwymiad ariannol ychwanegol gan y Cabinet. Mae'r Cynllun yn seiliedig ar lefelau ariannu a nodwyd yng Nghyllideb Ddrafft Rhagfyr 2021.

Mae rhai risgiau a heriau mewn perthynas â materion adnoddau sy'n effeithio ar nifer o ymyriadau sgiliau allweddol, ond caiff y rhain eu rheoli i sicrhau bod ymrwymiadau'n cael eu cyflawni yn ystod tymor y llywodraeth hon.

Dylid nodi bod y farchnad lafur a'r cyd-destun economaidd, a lefel a chwmpas gwariant Llywodraeth y DU ar ddarpariaeth SPF a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn parhau'n ansicr. Fodd bynnag, mae'r camau gweithredu a amlinellir yn y cynllun yn rhagweld lefel o ansicrwydd ac yn ceisio sicrhau lefel o hyblygrwydd mewn polisi ac ymyrraeth i ymateb i newid mewn amgylchiadau.

Nid yw’r Papur Cabinet a’r Cynllun yn arwain at unrhyw faterion cyfreithiol uniongyrchol. Fodd bynnag, bydd swyddogion yn cael cyngor ar brosiectau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-a-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-a-sgiliau-papur-cabinet-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

penodol fesul achos er mwyn sicrhau bod y prosiectau hynny'n cael eu cyflawni mewn modd sy'n cydymffurfio'n gyfreithiol. Yn benodol, bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol yn cael eu cynnwys i asesu prosiectau newydd o safbwynt pwerau, a bydd trefniadau ariannu, grantiau neu gymhellion arfaethedig yn cael eu hasesu i gydymffurfio â'r drefn rheoli cymhorthdal cyn eu gweithredu.

Cymeradwyaeth ariannol:

- Is-adran y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth: BGB0315/6
- Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes: SHELL/MFE/130/21
- Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus - EPS/VG/2/22
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: NJ 8293/2022
- Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi - Ymchwil neu ystadegau: 04/2022

## Colli Cronfeydd Strwythurol yr UE

Gan ein bod yn colli Cronfeydd Strwythurol yr UE ar ôl diwedd 2023 a bod Llywodraeth y DU wedi methu â darparu cronfeydd newydd yn eu lle a rôl gyd-benderfynu ar gyfer Llywodraeth Cymru, rydym yn rhagweld diffyg cyllid sylweddol i gyflawni rhai blaenoriaethau buddsoddi economaidd. Bydd hyn yn creu pwysau ariannol ar ystod eang o sectorau, yn enwedig Addysg Uwch/Addysg Bellach, busnes a'r trydydd sector, yn ogystal **â** gwaith Llywodraeth Cymru i gyflawni cynlluniau Cymru gyfan gyda phartneriaid. Mae prosiectau Cymru gyfan Llywodraeth Cymru sy'n cael eu hariannu ar hyn o bryd gan Gronfeydd Strwythurol yr UE ac sy'n canolbwyntio ar Gyflogadwyedd yn cynnwys: Busnes Cymru (gan gynnwys Cymorth Digidol); Cyllid y Trydydd Sector drwy CGGC; ReAct; Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau; Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE); a Cymunedau am Waith (CfW).

Pe bai'r DU wedi aros yn yr UE, byddai gan Gymru fynediad at lu o raglenni cyfredol yr UE ar gyfer ymrwymiadau a wnaed eisoes i brosiectau, yn ogystal â mynediad at ddyraniadau newydd, sef o leiaf £375m y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae dyraniadau'r Gronfa Adnewyddu Cymunedau a'r Gronfa Partneriaeth Gymdeithasol yn y dyfodol yn ostyngiad sylweddol yn y cyllid sydd ar gael i sefydliadau yng Nghymru at ddibenion buddsoddi economaidd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-a-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-a-sgiliau-papur-cabinet-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-a-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-a-sgiliau-papur-cabinet-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-a-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-a-sgiliau-papur-cabinet-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-a-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-a-sgiliau-papur-cabinet-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.